

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd yn y Ganolfan Talysarn, Nos Fawrth, 13 Gorffennaf 2021 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. **Presennol:** Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Sian Dafydd, Gareth Lloyd Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Erfyl Williams, Dylan Herbert – Penygroes; Gwyndaf Roberts, O P Huws, Hefina Roberts – Llanllyfni; Ffion Jones – Nantlle

Ymddiheuriadau: Heledd Gwilym a Justin Davies – Penygroes; Peter Bridges – Talysarn. Judith Humphreys a Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd - Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Neb yn datgan.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 8 Mehefin 2021** – Cynnigwyd gan Sian Dafydd ac eilwyd gan Gwyndaf Roberts fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - Nid oedd dim mater yn codi o'r cofnodion.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** – Roedd pawb wedi derbyn adroddiad ymlaen llaw gan Judith Humphreys a Craig ab Iago ac wedi cael cyfle i edrych drostynt cyn y cyfarfod. Gofynnodd OP Huws os y buasai yn bosib holi ynglŷn â'r ffiniau newydd ar gyfer y Cynghorhau Cymuned – Nia i gysylltu gyda Craig i'w holi am hyn. Diolchwyd i'r cynghorwyr yn eu absenoldeb am baratoi yr adroddiadau.

6. **Taflen ariannol a chyllid** - Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros e-bost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Pawb yn hapus gyda'r cyfrifon. Roedd cyfarfod is-bwyllgor cyllid wedi ei gynnal ar 5ed Gorffennaf a bydd yn cael ei drafod yn y pwynt nesaf.

7. **Cyfarfodydd is-bwyllgor** – Is-bwyllgor cyllid (05/07/2021) – adroddodd Dafydd Thomas i bawb beth a oedd wedi cael ei drafod yn y cyfarfod hwn ynglŷn â'r cyllid ar gyfer gwaith Mynwent Macpela a cyllid ar gyfer y golau nadolig. Esboniodd Gareth Jones i'r pwyllgor llawn y bydd yna £12,000 yn weddill o arian a oedd wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith Macpela a cynnigiodd i'r pwyllgor llawn fod £10,000 o hwn yn mynd tuag at osod golau nadolig yn Penygroes a Llanllyfni eleni a bod £2,000 yn mynd tuag at y gwaith o ail-osod y safle bws o Benygroes i Talysarn. Cytunwyd yn unfrydol i hyn ddigwydd. Cynigwyd hefyd bod y £1000 sydd yn y gyllideb ar gyfer prosiect pentrefi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhoi coeden nadolig i'r pentrefi (Nebo, Nantlle a Talysarn) gan nad ydynt yn cael golau nadolig eleni – trafodwyd a cytunwyd i'r cynnig hwn hefyd. Nododd OP Huws fod yr is-bwyllgor cyllid hefyd wedi trafod talu treuliau i'r ymgynghorydd a fydd yn edrych dros y gwaith yn Macpela – cynigwyd i dalu £500 am y tri ymweliad cyntaf a wedyn £100 am bod ymweliad ychwanegol. Eiliodd Sian Dafydd y cynnig hwn a cytunodd pawb.

Is-bwyllgor Safle Ail-gylchu (21/06/2021) – adroddwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Steffan Jones Cyngor Gwynedd i drafod y safle ym Mhenygroes ar siawns gobeithio o'i symud i'r Ystad Diwydianol. Yn dilyn o'r cyfarfod mae yna dipyn o lanast wedi bod yn cael ei adael ar y safle ac erbyn hyn Cyngor Gwynedd yn bygwth tynnu y biniau oddi yno. Steffan wedi adrodd yn nôl bore ma nad yw eto wedi ffendio safle yn yr ystad ar gyfer safle newydd ond ei fod dal yn edrych fewn i'r mater. Teimlad yn y cyngor cymuned yw os y gwnaiff Cyngor Gwynedd fynd ar safle heb gael lle newydd yna bydd tipio slei bach yn digwydd a bydd hyn yn golygu mwy o gostau i'r cyngor gan y bydd angen clerio sbwriel ymhob man. Cynnigiodd Dafydd Thomas ein bod yn ysgrifennu at Steffan i ofyn wrthynt beidio a tynnu y safle oddi yno a gofyn wrthynt ystyried rhoi camerau yno a gweithredu ar yr hyn sydd yn

digwydd. Cynigiodd Erfyl Williams i ofyn iddynt roi arwyddion mwy clir yno yn dweud wrth bobl beidio a gadael sbwriel y tu allan i'r biniau. OP Huws yn cynnig efallai y buasai yn syniad mynd at y wasg gyda hyn. Barry Bracegirdle yn cynnig i ofyn wrthynt godi y gorchymun o orfod gwneud apwyntiad i fynd i'r safleoedd yn y Garn a Caernarfon. Hefyd angen atgoffa Steffan ei fod wedi gaddo na fyddai yn tynnu y safle oddi yno heblaw fod lle newydd wedi ei baratoi. Nia i ddrafftio llythyr a'i ddangos i bawb cyn ei yrru i Steffan. Cytunodd pawb gyda hyn.

8. Materion Pentrefi – Penygroes – Gofynwyd i Nia gysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglyn a'r chwyn sydd yn tyfu ar y strydoedd a gofyn iddynt ddod i roi chwynladdwr yno. Adroddodd Gareth fod strydoedd Talysarn yr un fath – Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Ceri yn adrodd fod safle yr hen ysgol feithrin yng nghefn Stryd yr Wyddfa gyda golwg ofnadwy yno a bod llygod wedi eu gweld yno hefyd – Nia i gysylltu gyda'r perchnogion am y pryder hwn. **Llanllyfni** – Safle yr hen dafarn Cwari – yn ôl adroddiad Craig nid oes grantiau ar gael i brynu y lleoliad hwn. Gwyndaf cynnig i yrru at Gyngor Gwynedd i roi y cynnig eu bod nhw yn ei brynu er mwyn gwneud safle parcio i drigolion Llanllyfni ag y buasai hyn yn haws ag yn rhatach i'r cyngor yn hytrach na rhoi estyniad i'r man parcio ar waelod Lôn Ddŵr – Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i roi y cynnig hwn ymlaen. Neu ail gynnig gan Gwyndaf oedd bod y cyngor yn prynu y safle er mwyn adeiladu tai i drigolion Llanllyfni. Drain yn gor-dyfu wrth gerdded rhwng Brynffynnon a Tan Y Ffynnon – Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. **Talysarn** – Nia i holi y cyngor pryd fydd y gwair yn cael ei dorri o gwmpas Gloddfa Glai. Gofynnodd Peter Bridges drwy neges ebost bod ffens wedi torri ar y ffordd rhwng Ffordd Hyfrydle a Plas Silyn – Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Gofynnodd Gareth os oed posib i Nia ddilyn fyny ar yr pwynt ynglyn a cyflwr y ffyrdd gyda Cyngor Gwynedd – dim i'w weld wedi ei wneud a pethau yn gwaethygu. OP Huws yn codi y mater fod yr Eglwys yn Talysarn ar werth am £190,000 ag yn cynnig y dylai y cyngor cymuned arwain i geisio cael arian i brynu yr adeilad er mwyn ei wneud yn ganolfan etifeddiaeth / treftadaeth. Roedd OP wedi gyrru ebost i bawb ymlaen llaw gyda'r cynnig hwn. OP yn fodlon gwneud mwy o waith ymchwil i fewn i hyn. Cytunodd pawb fod hyn yn syniad da a dylid edrych fewn i'r mater fwy. Dywedodd Sian fod ganddi gyfarfod LleChi wythnos nesaf ag y bydd yn codi hyn yn y cyfarfod. Adrodd yn nôl i'r cyngor pan fydd mwy o waith a manylion ar gael. **Nantlle** – Ffion gofyn os oes modd i Nia gysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglyn â'r gor-dyfiant ar ochr y ffordd fawr gan ei fod yn beryglus a methu gweld os oes rhywun yn cerdded neu beicio ar ochr y ffordd. **Nebo** – Cwynion wedi eu derbyn ynglyn â'r 'motorhomes/campervans' sy'n parcio dros nos yn y man parcio ar y trac wrth y llyn ar perchnogion yn defnyddio y safle fel tŷ bach ag yn gadael eu sbwriel yno. Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd a Dŵr Cymru am y mater.

9. Safleoedd bysiau Penygroes/Talysarn – Darllenodd Nia yr ebost a oedd wedi ei dderbyn gan Rhian William yn ymateb i'r cwestiynau a oedd wedi ei holi. Ceri am holi 'Adra' i weld os mai nhw sydd berchen y darn tir yn Talysarn lle mae'r lloches gobeithio yn mynd i gael ei osod. Nia i gysylltu gyda Tom James i ofyn am bris i'r gwaith.

10. Diffbrilyddion – Esboniodd Dafydd Thomas fod trigolion Nebo wedi meddwl gosod diffib yn y pentref ond fod y gost yn £1500 ac angen trydan i'w redeg ag hyn yn ormod o arian i'r Pwyllgor Ardal ei gasglu. Cynigiodd Dylan fod Dafydd yn gyrru llythyr ato ynglyn â'r cyflenwad trydan a Ceri am holi 'Adra' i weld os oes rhywbeth y gallant hwy wneud i helpu.

11. Canllawiau cyfarfod wyneb yn wyneb – heno oedd y cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb ers Mawrth 2020 ag yng nghyfarfod mis Medi am dreialu fod y rhai sydd methu bod yn bresennol yn y ganolfan yn medru ymuno drwy y system 'zoom'.

12. Ceisiadau Cynllunio –

C21/0669/22/DT – Cae Ffridd Bach, Nebo – Codi estyniad deulawr ar yr eiddo ac ymestyn cwrtil presennol ar gyfer gwelliannau i'r fynedfa a parcio – dim gwrthwynebiad.

Hawl tramwy cyhoeddus honedig Nebo LL54 6RU – llythyr dyddiedig 1af Gorffennaf wedi ei dderbyn am hyn. Esboniodd Dafydd y sefyllfa er mwyn i bawb ddallt – yn dilyn trafodaeth nid oedd dim gwrthwynebiad – Nia i adrodd hyn yn nol i Gyngor Gwynedd.

13. Gohebiaeth – Aethpwyd drwy yr ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn a'i restru ar yr agenda. Materion a oedd yn codi o'r ohebiaeth oedd:

Siop Griffiths – pris strimio yr ardd wyllt gymunedol – cynnigodd Gwyndaf i Nia gysylltu yn nol gyda nhw a rhoi rhif cyswllt y contractwyr iddynt gysylltu yn uniongyrchol gyda nhw – hefyd nodi iddynt beidio a torri y blodau gwyllt tan mis Medi – eiliodd Harry Owen y cynnig hwn.

Ymgynghoriad clercod – esboniwyd beth oedd hyn yn ei olygu a cytunodd Dafydd i lunio ymateb iddynt.

Dorothea – gofyn wrthynt am ddiweddariad yna gellir paratoi ymateb ymlaen llaw i'w trafod mewn cyfarfod gyda nhw.

14. Llwybrau a Mynwentydd – Pris o £850 wedi ei roi gan y contractwyr i roi chwynladdwr lawr yn y dair fynwent – Gwyndaf a Hefina yn cynnig i dderbyn y pris – pawb yn cytuno. Adrodd fod y corlenni wedi eu tynnu o fynwent Gorffwysfa ond fod yna rhai wedi gadael sbwriel yno – Nia i roi nodyn ar facebook ac yn Lleu i adrodd fod angen i bawb fynd a'r sbwriel oddi yno gyda nhw o hyn ymlaen. Adrodd fod aelodau o'r cyhoedd yn enwi a pardduo rhai o'r cynghorwyr cymuned – nid yw hyn yn cael ei gymerud a mae yn bwysig i bobl gofio mai gwirfoddolwyr ydi pawb.

15. Materion ariannol - cytunwyd i'w talu.

- Antur Nantlle Cyf - £25.98+5.20 (TAW)= £31.18 – Adnewyddu enw parth llanllyfni.org.uk am 2flynedd

- Partiau Ceir Celtic £14.40+2.88 (TAW) = £17.28 – torri goriadau mynwent

- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngwyd Gorffennaf 2021

- Nia Jones - £14.39 Zoom Gorffennaf 2021

- Nia Jones - £10.20 Stampiau